

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i seilio ar ymchwil a gefnogwyd gan Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD). Mae WISERD yn fenter gydweithredol rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Morgannwg ac Abertawe. Mae'r cyhoeddiad hwn yn ymwneud ag ymchwil a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

WISERD

Dyfodol Llwyddiannus

Adolygiadau Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (Adolygiad Donaldson)

Dadansoddi ymatebion i'r holiadur

Adroddiad Terfynol

Ionawr 2015

Sally Power, Chris Taylor a Jamie Lewis

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru

(WISERD)

Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Sally Power

WISERD

46 Plas y Parc

Caerdydd

CF10 3BB

PowerS3@caerdydd.ac.uk

029 2087 4738



Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	i
Trosolwg.....	i
Prif ganfyddiadau	ii
Y PRIF ADRODDIAD.....	1
ADRAN 1: Cyflwyniad	1
Trosolwg o ymatebwyr yr Holiadur i Oedolion	1
Trosolwg o ymatebwyr yr Holiadur i Blant a Phobl Ifanc.....	3
Trefn y dadansoddiad	3
ADRAN 2: Yr Holiadur i Oedolion	5
C1a. Ar wahân i gymwysterau, beth yw'r tri pheth mwyaf pwysig y dylai pobl ifanc eu cael o ganlyniad i'w hamser yn yr ysgol?	5
C1b. Ydych chi'n credu y bydd y pethau hyn yn parhau i fod yn bwysig ymheng deng mlynedd?	8
C2a. Beth yw'r tri pheth gorau am addysg yng Nghymru?	9
C2b. Beth yw'r tri phrif beth sydd angen eu newid i wella addysg yng Nghymru? Sut fydddech chi'n mynd ati i'w newid?	12
C3a. Faint o ryddid ddylai ysgolion ei gael i benderfynu ar yr hyn y dylen nhw fod yn ei addysgu? ...	15
C3b. A yw hi'n bwysig bod holl blant Cymru'n dysgu'r un peth â'i gilydd hyd nes eu bod yn 16 oed?	16
C4a. Yng Nghymru, mae plant 3 i 7 oed yn astudio Meysydd Dysgu eang yn y Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn hyn ceir ffocws ar bynciau unigol am weddill eu haddysg gynradd ac uwchradd. Ydych chi'n meddwl mai dyma'r ffordd iawn i drefnu ein cwricwlwm?	16
C4b. Os nad ydych, pa fodelau amgen fydddech chi'n eu cynnig?	17
C5. A oes unrhyw bynciau y dylid eu hychwanegu at y cwricwlwm neu eu tynnu oddi arno?	19
C6. Mae plant yn dod o gefndiroedd gwahanol ac mae ganddyn nhw dalentau a galluoedd gwahanol. Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod eu haddysg yn helpu pob un ohonyn nhw i gyflawni'r gorau y gallan nhw?	21
C7. Pa wybodaeth sydd angen i chi ei gwybod am gyflawniad addysgol plant wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol?	22
C8. Ydych chi'n teimlo bod y cydbwysedd rhwng asesu ac addysgu/dysgu yn iawn ar hyn o bryd mewn ysgolion?	25
Cwestiwn ychwanegol i rieni/gofalwyr	27
C9. I ba raddau mae'r dulliau adrodd presennol sydd gan ysgolion yn eich helpu chi i ddeall sut mae eich plentyn/plant yn ei wneud yn yr ysgol?	27
Beth, os rhywbeth, fyddai'n well gennych?.....	29
ADRAN 3: Yr Holiadur i Blant a Phobl Ifanc.....	30
1a. Ar wahân i gymwysterau, beth yw'r tri pheth mwyaf pwysig y dylech chi eu cael o'ch amser yn yr ysgol?	30
1b. Sut ydych chi'n meddwl y bydd y pethau hyn yn eich helpu chi yn y dyfodol?	31
2. Beth yw'r tri pheth gorau am eich addysg chi?	31
3. Beth yw'r tri phrif beth sydd angen eu newid i wella eich addysg?	32
4. Oes gwahaniaeth os ydych chi a'ch ffrindiau'n astudio pethau gwahanol i'ch gilydd yn yr ysgol?	33

5. Yng Nghymru, rhwng 3 a 7 oed mae plant yn astudio Meysydd Dysgu fel ‘Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Byd’. Wrth i chi fynd yn hŷn rydych chi’n astudio pynciau unigol, fel gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth. Sut ydych chi’n meddwl ddylai’r pethau rydych chi’n eu dysgu gael eu trefnu i’ch helpu chi i gael y gorau o’ch amser yn yr ysgol?	34
6. Mae disgyblion eich ysgol chi’n dod o bob math o deuluoedd a chefnidiroedd gwahanol ac mae ganddyn nhw dalentau a galluoedd gwahanol. Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod addysg yn helpu pob disgybl i gyflawni’r gorau y gall wneud?	34
7. Beth sydd angen i chi ei wybod am eich llwyddiannau wrth i chi symud drwy’r ysgol?	34
ADRAN 4: Casgliad	36
ATODIAD	39
Data perthnasol o Raglen Ymchwil WISERDEducation	39
Beth yw’r tri pheth mwyaf pwysig y dylai pobl ifanc eu cael o ganlyniad i’w hamser yn yr ysgol? (C1aO)	39
Beth yw’r tri phrif beth sydd angen eu newid i wella addysg yng Nghymru? Sut fydddech chi’n mynd ati i’w newid? (C2bO).....	40
Beth yw’r tri pheth mwyaf pwysig y dylech chi eu cael o’ch amser yn yr ysgol? (C1aPPhI).....	42
Beth yw’r tri pheth gorau am eich addysg? (C2PPhI)	43

Rhestr Tablau

Tabl 1: Mathau o ymatebwr	1
Tabl 2: Categoriâu athrawon a staff cymorth a ymatebodd.....	2
Tabl 3: Dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr	2
Tabl 4: Proffil oedran ymatebwyr yr Holiadur i Blant a Phobl Ifanc	3

Rhestr Ffigurau

Ffigur 1: Pum nod addysgol bras addysg (% o'r holl ymatebwyr, n=864).....	5
Ffigur 2: Dosbarthiad nodau bras addysg yn ôl y math o ymatebwr.....	6
Ffigur 3: Y tri pheth gorau am addysg yng Nghymru (% o'r holl ymatebwyr, n=797)	11
Ffigur 4: Y 'pethau gorau' am addysg yng Nghymru y cyfeiriwyd atynt yn fwyaf aml, yn ôl y math o ymatebwr.....	12
Ffigur 5: Y pethau sydd angen eu newid i wella addysg yng Nghymru (% o'r holl ymatebwyr, n=949)	14
Ffigur 6: Y 'pethau sydd angen eu newid' y cyfeiriwyd atynt yn fwyaf aml, yn ôl y math o ymatebwr.....	15
Ffigur 7: Faint o ryddid ddylai ysgolion ei gael (% yr ymatebwyr, n=321)	15
Ffigur 8: Ai'r ffordd bresennol yw'r ffordd iawn i drefnu ein cwricwlwm?	17
Ffigur 9: Ai'r ffordd bresennol yw'r ffordd iawn i drefnu ein cwricwlwm? (yn ôl athrawon cyfnod)... ..	17
Ffigur 10: Dosbarthiad yr awgrymiadau am ddulliau amgen o drefnu'r cwricwlwm (% yr ymatebion, n=186)	18
Ffigur 11: Pynciau y dylid eu hychwanegu at y cwricwlwm neu eu tynnu oddi arno (% yr ymatebwyr, n=360)	20
Ffigur 12: Gwybodaeth sydd ei hangen am gyflawniad addysgol plant wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol (% yr ymatebwyr, n=364).....	22
Ffigur 13: Gwybodaeth sydd ei hangen am gyflawniad addysgol plant wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol, yn ôl y math o ymatebwr	23
Ffigur 14: A yw'r cydbwysedd rhwng asesu ac addysgu/dysgu yn iawn ar hyn o bryd? (% yr ymatebwyr, n= 255).....	25
Ffigur 15: Digonoldeb yr adroddiadau presennol gan ysgolion am gynnydd plant (% y rhieni a ymatebodd, n=89).....	27
Ffigur 16: Y pethau pwysicaf y dylai plant a phobl ifanc eu cael o'u hamser yn yr ysgol, yn eu barn nhw (% yr ymatebion, n=756).....	30
Ffigur 17: Y pethau gorau am addysg yng Nghymru yn ôl plant a phobl ifanc? (% yr ymatebion, n= 563)	31
Ffigur 18: Beth sydd angen newid, ym marn plant a phobl ifanc, i wella'u haddysg (% yr ymatebion, n=574)	33
Ffigur 19: A yw plant a phobl ifanc o'r farn bod gwahaniaeth os ydynt yn astudio pethau gwahanol i'w ffrindiau (% yr ymatebwyr, n=338)	34
Ffigur 20: Beth sydd angen i blant a phobl ifanc ei wybod am eu llwyddiannau yn eu barn nhw (% yr ymatebwyr, n=244).....	35

CRYNODEB GWEITHREDOL

Trosolwg

Ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ystod o ddiwygiadau blaengar i'r cwricwlwm sydd wedi ceisio meithrin brwdfrydedd tuag at ddysgu, datblygu sgiliau a chymwyseddau academaidd allweddol a hybu dinasyddiaeth gref. Bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygiad sylfaenol ac annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae'r Adolygiad, dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson, yn ceisio cyfrannu at ddatblygiad 'cwricwlwm cydlynol, perthnasol, heriol a gwerthfawr sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain'. Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru at yr Adolygiad Annibynnol hwn o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac Asesu yn cynnig strategaeth arloesol a chynhwysol ar gyfer dylanwadu ar bolisiau'r cwricwlwm yn y dyfodol. Mae'r Cais am Dystiolaeth yn ceisio mynd y tu hwnt i'r 'bobl arferol' ac fe wnaeth wahodd cyfraniadau a sylwadau na chyfyngwyd i ymatebion caeedig. Trwy wneud hyn, y gobaith oedd y byddai'r weithred hefyd yn ysgogi trafodaeth 'genedlaethol' am ddyfodol y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Felly, mae'n darparu ffynhonnell dystiolaeth bwysig ochr yn ochr â gweithgareddau eraill yr Adolygiad, gan gynnwys grwpiau ffocws, ymweliadau, cyfarfodydd ac amrywiol adroddiadau gorchwyl a gorffen annibynnol a gomisiynwyd ar gyfer yr Adolygiad.

Fel rhan o'r Cais am Dystiolaeth, dosbarthwyd dau holiadur - 'Holiadur i Oedolion' a luniwyd i ran-ddeiliaid allweddol ei lenwi, gan gynnwys athrawon, rhieni/gofalwyr a sefydliadau, a 'Holiadur i Blant a Phobl Ifanc', a oedd yn fyrrach ond yn cynnwys rhai o'r un meysydd cyffredinol a'r fersiwn i 'Oedolion'. Roedd y Cais wedi ennyn ymateb helaeth ac amrywiol. Cafwyd 364 o ymatebion i'r Holiadur i Oedolion - gan gynnwys llawer gan unigolion, grwpiau a sefydliadau o bob cwr o Gymru. Cafwyd 349 o ymatebion i'r Holiadur i Blant a Phobl Ifanc - yn cynrychioli dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i addysg ôl-16.

Yn yr adroddiad hwn ar eu hymatebion, rydym wedi tynnu sylw at y themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg ac wedi sicrhau bod amrywiaeth yr ymatebion yn cael ei gynrychioli. Oherwydd bod yr holiaduron yn ddiennw, ni wyddom ryw lawer am gefndir ein hymatebwyr ac, fel ym mhob arolwg o'r math hwn, gwyddom na fydd rhai lleisiau'n cael eu cynrychioli'n deg. Fodd bynnag, gwyddom fod pob sector, rhanbarth a rhan-ddeiliad allweddol yng Nghymru wedi'u cynnwys. Ac mae ehangder y safbwyntiau cyferbyniol a welir yn yr ymatebion yn awgrymu bod yr ymdrech gasglu tystiolaeth wedi sicrhau safbwyntiau amrywiaeth o bobl.

Prif ganfyddiadau

O ran y blaenoriaethau i'r system addysg yng Nghymru, mae'n glir o'r ymatebion niferus y dylai ysgolion fod yn gwneud mwy na dim ond trosglwyddo gwybodaeth. Er bod dysgu llwyddiannus fel un o ddeilliannau addysg o werth mawr i bob rhan-ddeiliad (gan gynnwys plant a phobl ifanc), roedd amrywiaeth o ddeilliannau eraill o werth mawr hefyd. Roedd cymwyseddau cymdeithasol cyffredinol, sgiliau bywyd a hyder personol oll yn cael eu hystyried yn bethau pwysig i'w cael o'r ysgol. Gwahaniaeth allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r Holiadur i Blant a Phobl Ifanc oedd pa mor bwysig oedd ysgolion o safbwynt datblygu cyfeillgarwch – rhywbeth na gafodd lawer o sylw yn yr ymatebion i'r Holiadur i Oedolion.

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr – plant, pobl ifanc ac oedolion – yn gwerthfawrogi sawl agwedd ar addysg yng Nghymru. Nid yw'n syndod bod yr Holiadur i Oedolion wedi ennyn ymatebion ynghylch polisïau a nodweddion systemau a bod yr Holiadur i Blant a Phobl Ifanc wedi ennyn ymatebion ynghylch yr ysgol yn fwy uniongyrchol. O ran y 'pethau gorau' am addysg yng Nghymru, *cafwyd cefnogaeth gyffredinol i rai o bolisiau 'blaenllaw' Llywodraeth Cymru*. Y 'pethau gorau' y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd y Cyfnod Sylfaen, y Gymraeg a dwyieithrwydd, a'r ffocws ar hunaniaeth Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig. Cafodd annibyniaeth ar Loegr ei grybwyll yn aml hefyd. Yn achos Plant a Phobl Ifanc, roedd gwaith ysgol, ffrindiau ysgol a staff ysgol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Er bod cefnogaeth gyffredinol i bob golwg i lawer o'r mentrau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, amlygodd ymatebwyr *nifer o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau*. Awgrymodd ymatebion i'r ddau holiadur bod angen newid y cwricwlwm ac asesu er mwyn i addysg yng Nghymru wella. Yn gyffredinol, serch hynny, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gonsensus o ran sut yn union y dylent gael eu newid. Roedd ymatebwyr yr Holiadur i Oedolion yn poeni am nifer cynyddol yr asesiadau. Un o brif ganfyddiadau'r Arolwg yn gyffredinol oedd *nid yw'r cydbwysedd presennol rhwng asesu a dysgu yn gywir* – gyda gormod o bwyslais yn cael ei roi ar y cyntaf ar draul yr ail. Er bod plant a phobl ifanc yn llawer llai tebygol o ddweud bod asesu yn faes yr oedd angen ei newid, roeddent o'r farn y gallai'r cydbwysedd rhwng pynciau gael ei wella. Hefyd, fe wnaethant sôn am faterion yn ymwneud ag addysgeg ac awgrymu amryw ffordd y gallai eu gwersi fod yn fwy perthnasol a diddorol yn eu barn nhw.

Cafodd materion yn ymwneud â'r cwricwlwm a'i berthnasedd i oedolaeth eu codi hefyd yn yr Holiadur i Oedolion. Y tri maes pwnc a ddyfynnwyd amlaf gan yr ymatebwyr o safbwynt eu hymestyn a/neu eu gwella oedd ABCh, sgiliau sylfaenol (e.e. llythrennedd a rhifedd) a mwy o addysg alwedigaethol ac arweiniad gyrfaoel.

O safbwynt trefnu'r cwricwlwm, nid oedd cytundeb ymhlith yr ymatebwyr mai'r trefniadau presennol (Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yna pynciau unigol) oedd y ffordd gywir i symud ymlaen. Fodd bynnag, roedd y rhai a ddymunai weld newidiadau yn fwy tebygol o

fod eisiau *symud rhag dull traddodiadol fesul pwnc*. Roedd yr ymatebion mwyaf mynych yn awgrymu ymestyn dull y Meysydd Dysgu tan ddiwedd CA2 a hyd yn oed CA3 neu drefnu dysgu ar sail sgiliau a/neu themâu.

O ran newid y cwricwlwm, mae'n eglur bod mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylai hyn fod yn faes polisi'r Llywodraeth yn hytrach nag yn cael ei benderfynu ar lefel ysgol. Dim ond lleiafrif bach oedd o'r farn y dylai ysgolion gael rhyddid llwyr o safbwynt cynnwys yr addysgu. Cafodd *cwricwlwm cyffredin neu ryddid dim ond o fewn y paramedrau a sefydlir gan Gwricwlwm Cenedlaethol gefnogaeth gyffredinol*.

Un rheswm dros gefnogi fframwaith Cwricwlwm Cenedlaethol yw'r *angen i ysgolion ddarparu data rheolaidd a chymharol ynghylch cynnydd disgyblion*; amlygwyd y rheswm hwn gan lawer o ymatebwyr. Er y gellid ystyried bod hyn i raddau'n mynd yn groes i bryderon am or-asesu, ystyriwyd mai gwybodaeth am gyraeddiad oedd y ffordd bwysicaf o asesu cynnydd yn yr ysgol. Yn wir, pan ofynnwyd i rieni/gofalwyr roi sylwadau ar ddigonoldeb y mathau presennol o gyflwyno adroddiadau, dyma oedd un o'r prif feysydd pryder a fynegwyd ganddynt. Hefyd, ym marn plant a phobl ifanc eu hunain, gwybodaeth am gryfderau a gwendidau personol oedd y prif fath o wybodaeth yr oedd arnynt angen ei gwybod er mwyn eu helpu i wneud cynnydd.

At ei gilydd, datgelodd y Cais am Dystiolaeth gefnogaeth gyffredinol i gyfeiriad Llywodraeth Cymru a gwerthfawrogiad tuag at sawl agwedd ar addysg. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai un maes sydd angen sylw yw'r berthynas rhwng y cwricwlwm ac asesu. Mae hyn yn awgrymu bod yr Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac Asesu yn amserol ac yn bwysig.

Y PRIF ADRODDIAD

ADRAN 1: Cyflwyniad

Trosolwg o ymatebwyr yr Holiadur i Oedolion

Derbyniom 364 o holiaduron. O'r 364 hyn, cwblhawyd 331 (90.9%) yn Saesneg a 33 (9.1%) yn Gymraeg.

O ran y manylion personol a'r mathau o bobl a ymatebodd, roedd y cyfranwyr at yr arolwg yn gallu ticio un o saith blwch – disgybl/myfyriwr;¹ rhiant/gofalwr; athro/staff cymorth; llywodraethwr; arall; sefydliad; a thrafodaeth grŵp. O'r rhain, nid yw'r categorïau yn annibynnol ar ei gilydd. Mae rhai ymatebwyr yn athrawon yn ogystal ag yn gynrychiolwyr sefydliadau, yn llywodraethwyr ac yn rhieni/gofalwyr. Lle y cofnodwyd sawl rôl, eu rolau proffesiynol a sefydliadol sydd wedi cael blaenoriaeth yn hytrach na rolau gwirfoddol a rolau rhiant. Felly, mae'r rhai a atebodd eu bod yn athrawon ac yn rhieni/gofalwyr wedi'u dynodi'n athrawon. Roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn athrawon ac yn llywodraethwyr wedi'u dynodi'n athrawon hefyd, ac mae'r rhai a wnaeth roi tic yn y blychau llywodraethwr a rhiant wedi'u dynodi'n llywodraethwyr. Dangosir y dosbarthiad cyffredinol yn Nhabl 1 a dangosir dosbarthiad athrawon a staff cymorth yn Nhabl 2.

Tabl 1: Mathau o ymatebwr

	Amllder	% yr holl oedolion a ymatebodd
Disgybl/myfyriwr	2	0.5
Rhiant/gofalwr	30	8.2
Athro/Staff Cymorth	137	37.6
Llywodraethwr	17	4.7
Unigolyn Arall	33	9.1
Sefydliad	79	21.7
Trafodaeth grŵp	11	3.0
Heb gofnodi	55	14.9
<i>Cyfanswm</i>	<i>364</i>	<i>100.0</i>

¹ Cafodd y rhain eu cynnwys gyda'r Holiadur i Blant a Phobl Ifanc

Tabl 2: Categoriâu athrawon a staff cymorth a ymatebodd

	Amllder	% yr holl oedolion a ymatebodd
Cymorth	11	3.0
Dosbarth	25	6.8
Pwnc	13	3.6
Canol	39	10.7
Uwch	17	4.7
Pennaeth	33	9.1
<i>Cyfanswm</i>	<i>138</i>	<i>37.9</i>

Er y gofynnwyd i'r holl ymatebwyr enwi eu hawdurdod lleol, mae'r ymatebion yn anghyson. Mewn ambell achos, mae gan y sefydliadau gylch gwaith cenedlaethol ac nid ydynt eisiau dynodi eu bod yn perthyn i ardal benodol. Yn ogystal, rhoddodd ymatebwyr â rolau lluosog (e.e. rhiant ac athro) ddau awdurdod lleol gan eu bod yn byw mewn un ac yn gweithio mewn un arall. O'r ymatebion a gawsom, maent wedi'u dosbarthu yn ôl y pedwar consortia yng Nghymru ac amlinellir hyn yn Nhabl 3.

Tabl 3: Dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr

	Amllder	% yr holl oedolion a ymatebodd
Ni roddwyd ALL	275	75.5
Canolbarth y De	25	6.9
ERW	31	8.5
Gogledd Cymru	15	4.1
De-ddwyrain	18	4.9
<i>Cyfanswm</i>	<i>364</i>	<i>100.0</i>

O'r 79 sefydliad a ymatebodd, dim ond 56 a wnaeth enwi sector: mae 33 o'r trydydd sector, 17 o'r sector cyhoeddus, 3 o'r sector preifat a rhoddwyd yr ateb 'arall' gan 3 ohonynt. Mae briff ymgyrchu penodol gan lawer o'r sefydliadau a ymatebodd, ac mae eu hatebion yn adlewyrchu eu hagendâu penodol nhw.

Trosolwg o ymatebwyr yr Holiadur i Blant a Phobl Ifanc

Cwblhaodd 349 o bobl ifanc yr holiadur i bobl ifanc. O'r rhain, cwblhaodd 29 (8.3%) ohonynt yr arolwg yn Gymraeg. Mae eu dosbarthiad yn ôl Cyfnod Allweddol yn cael ei ddangos yn Nhabl 4.

Tabl 4: Proffil oedran ymatebwyr yr Holiadur i Blant a Phobl Ifanc

	Amllder	% yr holl blant a phobl ifanc a ymatebodd
Y Cyfnod Sylfaen	1	0.3
CA2	108	30.9
CA3	74	21.2
CA4	82	23.5
16+	48	13.8
Heb ateb	36	10.3
<i>Cyfanswm</i>	<i>349</i>	<i>100.0</i>

O ran y math o ysgol, o blith y rhai a atebodd y cwestiwn, roedd 113 mewn ysgolion cynradd, 178 mewn ysgolion uwchradd a chwech mewn ysgolion arbennig.² Dywedodd un ar bymtheg eu bod mewn sefydliadau 'eraill', a allai gynnwys colegau chweched dosbarth ac addysg bellach.

Cawsom yr argraff mewn sawl achos bod yr Holiadur i Blant a Phobl Ifanc wedi'i gwblhau yn y dosbarth. Arweiniodd hyn at rywfaint o 'glystyru' atebion, lle'r oedd yn amlwg bod disgyblion wedi bod yn trafod ac yn cyfnewid syniadau â'i gilydd.

Trefn y dadansoddiad

Yn yr adroddiad hwn ar y dadansoddiad, cyflwynir yr ymatebion fesul cwestiwn. Cyflwynir ymatebion i'r Holiadur i Oedolion yn gyntaf yna'r ymatebion i'r Holiadur i Blant a Phobl Ifanc. Lle y bo'n briodol, rhoddir rhifau amllder – weithiau mae'r rhain yn perthyn i ymatebion ac weithiau i ymatebwyr. Rydym hefyd yn dweud os oes unrhyw amrywiad systematig mewn ymateb yn ôl y math o ymatebwr. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn tynnu sylw at ymatebion sefydliadol rhanddeiliaid allweddol (e.e. cymdeithasau proffesiynol, undebau athrawon).

² Rydym yn cydnabod nad yw'r niferoedd hyn yn cyfateb yn hollol i'r Cyfnodau Allweddol a roddwyd gan yr ymatebwyr, ond mae'n dangos problemau gyda chywirdeb y data yn hytrach na'r dadansoddiad ohono.

Yn yr Atodiad, rydym wedi darparu tystiolaeth o'n rhaglen ymchwil WISERDEducation, a ariennir gan CCAUC, sy'n ategu canfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth yn ein barn ni.

ADRAN 2: Yr Holiadur i Oedolion


C1a. Ar wahân i gymwysterau, beth yw'r tri pheth mwyaf pwysig y dylai pobl ifanc eu cael o ganlyniad i'w hamser yn yr ysgol?

Yn dilyn proses ailadroddus a oedd yn cynnwys pennu hyd a lled yr ymatebion o gymharu â theipoleg gyffredinol dibenion addysg, datblygwyd fframwaith dynodi a oedd yn deillio'n fras o nodau *Curriculum for Excellence* yr Alban. Teimlom fod y fframwaith hwn yn cynnig man cychwyn defnyddiol gan ei fod yn darparu rhywfaint o wahaniaethu gyda nifer cymharol fach o categorïau. Amlygwyd pum nod addysgol bras: dysgwyr llwyddiannus; unigolion hyderus; dinasyddion cyfrifol; oedolion cymwys; a chorff a meddwl iach.

- *Dysgwyr llwyddiannus*: mae ymatebion yn y categori hwn yn cyfeirio at yr hyn y gellid ei alw'n ddeilliannau gwybyddol addysg ac agweddau at ddysgu a gwybodaeth.
- *Unigolion hyderus*: mae ymatebion yn y categori hwn yn cyfeirio at agweddau ar hunanhyder ac effeithiolrwydd personol.
- *Dinasyddion cyfrifol*: mae ymatebion fan hyn yn ymwneud â'r angen i addysg feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol.
- *Oedolion cymwys*: mae ymatebion fan hyn yn ymwneud â'r hyn y gellid ei alw'n 'sgiliau bywyd' yn fras.
- *Corff a meddwl iach*: mae ymatebion fan hyn yn ymwneud â'r angen i ysgolion feithrin lles meddyliol a chorfforol.


Mae dosbarthiad ymatebion yn ôl y pum nod bras hyn yn cael ei ddangos yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Pum nod addysgol bras addysg (% o'r holl ymatebwyr, n=864)



Fel y mae Ffigur 2 yn dangos, prin oedd y gwahaniaethau rhwng blaenoriaethau grwpiau o ymatebwyr.

Ffigur 2: Dosbarthiad nodau bras addysg yn ôl y math o ymatebwr



Mae amlinelliad ac enghreifftiau o ymatebion nodweddiadol wedi'u rhoi isod.

Oedolion cymwys

Mae'r categori hwn yn cynnwys yr holl sgiliau hynny y dylai ysgolion eu meithrin, ym marn yr ymatebwyr, er mwyn helpu'r dysgwr i symud i oedolaeth yn llwyddiannus. Yn aml, roedd y rhain yn cyfeirio at gymwyseddau cyfathrebu a symbyliad, ond cyfeiriodd bron i draean (31.6%) at sgiliau bywyd penodol, fel coginio, cyllid a magu plant. Enghraifft nodweddiadol o hyn oedd:

Sgiliau bywyd – amser, arian, lle, cyfrifiadau sylfaenol, mynegiant, gallu llenwi ffurflenni, dilyn cyfarwyddiadau ac ati (Rhiant/Gofalwr)

Dysgwyr llwyddiannus

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a ddywedodd bod hyn yn flaenoriaeth wedi crybwyll sgiliau mewn pynciau sylfaenol, er enghraifft:

Bod yn llythrennog; Bod yn rhifog; Bod yn llythrennog yn ddigidol (Sefydliad)

Cyfeiriodd lleiafrif at bynciau penodol, fel gwyddoniaeth a thechnoleg:

Deall y dull gwyddonol a phwysigrwydd gwyddoniaeth fel llwybr dibynadwy at wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Bydysawd. (Sefydliad)

Cyfeiriodd ychydig ymatebwyr at bwysigrwydd addysgu pobl ifanc am Gymru a'i chyddestun byd-eang, er enghraifft:

Gwybodaeth dda am hanes a daearyddiaeth Cymru er mwyn bod yn ymwybodol o'i lle yn y byd a'i datblygiad hanesyddol, a dealltwriaeth o hyn, a chodi hunan-barch y genedl a'n proffil yn y byd. Mae cyfraniad pwysig pobl o Gymru at gynnydd yn rhy aml wedi'i anwybyddu, ei lyncu neu ei gamfeddiannu gan hanes a ysgrifennwyd y tu allan i Gymru/o safbwynt nad yw'n Gymreig. (Llywodraethwr)

Yn ogystal â chasgliadau penodol o wybodaeth, cyfeiriodd llawer o ymatebwyr (63.5%) at bwysigrwydd brwdfrydedd mwy cyffredinol tuag at ddysgu – rhywbeth a oedd wedi'i aberthu yn eu barn nhw yn sgil y pwyslais presennol ar safonau:

Cariad tuag at ddysgu – nid yw plant yn 'fwcedi i'w llenwi ond yn danau i'w cynnau'. Yn rhy aml, mae 'addysg' fel y'i gelwir yn ymwneud ag ystod gul tu hwnt o ffeithiau i gaffael 'lefel' 'sgôr' neu 'radd'. (Athro)

Creadigrwydd plîs, plîs, plîs. Y gallu i fod yn chwareus, ymdoddi i'r dychymyg; mae hyn yn hollbwysig ar gyfer diogelu plentyndod plentyn a'i baratoi â thechnegau hanfodol ar gyfer datrys problemau ac ymhyfrydu yn rhyfeddod y byd. (Rhiant/Gofalwr)

Cariad tuag at ddysgu – dylai ysgolion ysgogi, ymestyn ac ysbrydoli, nid mygu a chaethiwo. (Athro)

Dinasyddion cyfrifol

O ran dinasyddiaeth, cafwyd amrywiaeth eang o flaenoriaethau, gyda materion yn ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol, cyfrifoldebau pobl a magu cymeriad personol oll yn cael eu crybwyll:

Gwerthfawrogi'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, pwysigrwydd helpu pobl eraill a sefyll dros yr hyn rydych chi'n ei gredu. Elfennau hanfodol dinesydd 'defnyddiol'. (Athro)

Addysg ar sail gwerthoedd, sy'n annog cyfrifoldeb cymdeithasol a sifil. Mae gan yr ysgol ran arwyddocaol i'w chwarae ym mhrosesau cymdeithasoli plant a phobl ifanc sy'n sylfaen i gymdeithas wâr. (Athro)

Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r angen i drin pob aelod o gymdeithas gyda pharch, a gwerthfawrogi amrywiaeth yn hytrach na'i ystyried yn fygythiad. Gwerthfawrogi cydlyniant cymunedol. (Athro)

Derbyn amrywiaeth gymdeithasol a hiliol, ni waeth pwy a dderbynnir i'r ysgol. (Rhiant/Gofalwr)

I rai, mae'n ymwneud â llai o hawliau a mwy o gyfrifoldebau. I eraill, mae dinasyddiaeth yn ymwneud â hawliau a pharch:

Dylai pobl ifanc ddatblygu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned yr ysgol, y gymuned leol ehangach, y gymuned genedlaethol â'i hunaniaeth Gymreig arbennig, a'i lle yn y gymuned fyd-eang ehangach (Sefydliad)

Corff a meddwl iach

Er bod nifer bach o ymatebwyr (5) wedi crybwyll cysyniadau fel 'llythrennedd corfforol' a 'sgiliau echddygol', yn fwy aml na heb, materion yn ymwneud â lles meddyliol oedd yn bwysig:

sefydlogrwydd emosiynol, cael ymwybyddiaeth o sut maent yn teimlo ac yn ymateb, sut maent yn datblygu'n emosiynol, a sut i reoli eu hemosiynau mewn gwahanol sefyllfaoedd (Athro)

Cafwyd pryderon penodol ynghylch rhywioli pobl ifanc yn eu harddegau cynnar a thrais yn erbyn menywod, er enghraifft:

deall perthynas ddiogel a pharchu eich hun a phobl eraill. Cynnwys trais yn erbyn menywod yn y cwricwlwm cenedlaethol (Sefydliad)

C1b. Ydych chi'n credu y bydd y pethau hyn yn parhau i fod yn bwysig ymhen deng mlynedd?

Nid yw'n annisgwyl bod bron pawb a atebodd y cwestiwn hwn (99%) o'r farn y byddai'r tair blaenoriaeth a amlygwyd ganddynt yr un mor bwysig yn y dyfodol ag y maent heddiw - os nad yn bwysicach. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu bod nifer o heriau difrifol i'w hwynebu yn y dyfodol - heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol - a bod angen i ysgolion baratoi eu disgyblion ar gyfer y rhain. Roedd yr esboniadau'n cynnwys:

Maen nhw'n debygol o fod yn bwysicach fyth. Mae teuluoedd heddiw mor brysur ac mor amrywiol fel y bydd angen i blant gaffael sgiliau sy'n eu paratoi ar gyfer byd a fydd yn wahanol iawn o ran swyddi a thechnoleg, ond lle y dylai dinasyddiaeth dda a

pherthnasoedd goddefgar fod wrth wraidd byd a fydd yn gynyddol ansefydlog.
(Sefydliad)

Rwy'n credu y bydd sgiliau cymdeithasol yn gynyddol bwysig wrth i fwy a mwy o gysylltiad dynol fynd yn rhith-gysylltiadau ac yn electronig. Mae angen i ni ganolbwyntio ar hyn er mwyn atal pobl ifanc rhag datblygu rhywbeth y mae rhai arbenigwyr yn ei alw'n awtistiaeth wedi'i ddysgu. Ac o ran gwybodaeth gyffredinol – bydd llawer o bobl yn dadlau nad yw'n ymwneud â dysgu pethau, ond yn ymwneud ag ennill sgiliau. Ond fy nadl i yw, os nad ydych chi'n gwybod pethau, i beth allwch chi gymhwyso'r sgiliau hynny? (Unigolyn)

Mae'r materion hyn yn debygol o fod yn gynyddol bwysig wrth i fynediad i'r farchnad waith fynd yn fwy heriol i bobl ifanc, ac wrth i waith ansicr gynyddu, yn enwedig i'r rhai sydd â sgiliau lefel is. (Unigolyn)

Cymwysterau a sgiliau yw sylfeini gyrfaoedd a'r economi. Mae gwybodaeth am ddiwylliant, hanes a chi'ch hunan yn hollbwysig ar gyfer hunaniaeth ac undod cymdeithasol. (Athro)

Bydd llawer o newidiadau yn y degawd nesaf oherwydd y newid yn yr hinsawdd, ac ni fydd addysg ffurfiol yn seiliedig ar lôn o reidrwydd o werth i blant, mae'n bwysig eu bod nhw'n dysgu sgiliau fel cydweithio, adeiladu cartref naturiol (adeiladu lloches), tyfu bwyd a phlanhigion, a sgiliau goresi ac amgylcheddol eraill, yn ogystal â dysgu o lyfrau. (Rhiant/Gofalwr)

Byddwn i'n dadlau mai deallusrwydd emosiynol yw'r deallusrwydd pwysicaf. Bydd o bwys am byth, yn enwedig wrth i ni fynd yn fwy unig yn gymdeithasol (o ganlyniad i TG, cyfryngau cymdeithasol, yn eironig) ac rydym ni hefyd yn colli cysylltiad â'r amgylchedd. (Rhiant/Gofalwr)

C2a. Beth yw'r tri pheth gorau am addysg yng Nghymru?

Cafodd ymatebion i'r cwestiwn hwn eu dynodi yn 24 eitem. Yr enghraifft fwyaf mynych o'r peth gorau am addysg yng Nghymru oedd y Cyfnod Sylfaen (Ffigur 3). Yn groes i'r hyn sy'n aml yn cael ei hawlio yn y cyfryngau, daeth y Gymraeg a dwyieithrwydd yn ail. Daeth hunaniaeth Cymru ac agweddau ar y Cwricwlwm Cymreig yn drydydd. O ddiddordeb oedd y pumed enghraifft fwyaf poblogaidd, sef y ffaith bod gan Gymru ei system addysg ei hun ac, yn benodol, ei hannibyniaeth ar ddiwygiadau polisi yn Lloegr ac ymyrraeth wleidyddol gan Adran Addysg Llywodraeth y DU. Roedd cryfderau eraill addysg yng Nghymru yn cynnwys ei ffocws ar sgiliau a'i system gynhwysol, gyfun, â gogwydd cymunedol.


Fodd bynnag, dywedodd 25 o ymatebwyr (ychydig o dan 7% o ymatebwyr) naill ai na allent enwi unrhyw beth da am addysg yng Nghymru neu roeddent o'r farn bod rhai agweddau ar y system addysg yn ddiffygiol.

Oherwydd bod yr atebion wedi'u dynodi yn gategorïau eithaf manwl, nid yw'n bosibl cynnal unrhyw brofion am gysylltiadau â mathau penodol o ymatebwyr. Fodd bynnag, os canolbwyntiwn ar y chwe nodwedd 'uchaf' a grybwyllwyd yn fwyaf aml, gallwn weld rhai gwahaniaethau bach ond diddorol rhwng y mathau o ymatebwyr (Ffigur 4).


Gallwn weld mai athrawon oedd yn gwerthfawrogi'r ffocws ar sgiliau yn y cwricwlwm fwyaf – agwedd na chyfeiriodd yr un riant ati. Rhieni/gofalwyr oedd yn gwerthfawrogi'r Cyfnod Sylfaen fwyaf a llywodraethwyr oedd yn dangos y mwyaf o gefnogaeth tuag at athrawon ac ansawdd addysgu yng Nghymru.

Roedd pedwar o'r chwe undeb a chymdeithas athrawon a ymatebodd i'r arolwg hwn wedi amlygu amrywiaeth o agweddau yr oeddent yn eu gwerthfawrogi. Enwodd tri'r Cyfnod Sylfaen, a chyfeiriodd tri hefyd at y ffaith bod Cymru wedi cadw at egwyddorion addysg gyfun.

Ffigur 3: Y tri pheth gorau am addysg yng Nghymru (% o'r holl ymatebwyr, n=797)



Ffigur 4: Y ‘pethau gorau’ am addysg yng Nghymru y cyfeiriwyd atynt yn fwyaf aml, yn ôl y math o ymatebwr



C2b. Beth yw'r tri phrif beth sydd angen eu newid i wella addysg yng Nghymru? Sut fydddech chi'n mynd ati i'w newid?

Cafwyd ymatebion niferus a thra amrywiol i'r cwestiwn hwn. Rydym wedi trefnu'r 949 agwedd wahanol yn 35 categori mwy cyffredinol (Ffigur 5). Yn ogystal â'r rhestr pethau y mae angen eu newid, cafwyd barn baradocsaidd braidd ei mynegi'n aml, sef bod angen *llai* o newid a mwy o sefydlogrwydd ar addysg yng Nghymru.

Roedd yr ymateb llethol i'r hyn sydd angen ei newid yn ymwneud â materion asesu, cymwysterau a rheoli perfformiad - cyfeiriodd bron traean o ymatebwyr (29.1%) at hyn. Roedd llawer o ymatebwyr yn feirniadol iawn o'r system asesu bresennol a theimlont fod disgyblion yn cael eu hasesu'n ormodol. Fodd bynnag, mynegwyd barn gref fod angen mesurau rheoli perfformiad mwy neu fwy soffistigedig. Er bod hyn efallai'n gwrthddech ei hun ar yr olwg gyntaf, y farn gyffredinol oedd y dylai asesu gael ei ddefnyddio i reoli perfformiad ysgolion ac athrawon ac nid i fonitro perfformiad disgyblion unigol (er bod rhai hefyd yn cydnabod bod olrhain gallu disgyblion yn faes yr oedd angen mwy o sylw arno). Mae'n ddiddorol nodi mai cymharol ychydig o ymatebwyr amlygodd arwyddocâd asesu i'r broses ddysgu yn hytrach nag i ddeilliannau dysgu. Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai disgyblion astudio llai o gymwysterau TGAU ac, yn hytrach, sicrhau bod dealltwriaeth ddyfnach mewn llai o feysydd pwnc (gweler hyn eto yn yr adroddiad hwn).

Roedd maes arall i'w wella a gafodd ei enwi'n fynych (gan 18.4% o ymatebwyr) yn ymwneud â lefelau cyllid, naill ai oherwydd pryderon ynghylch cydraddoldeb yng Nghymru neu

gydraddoldeb â gweddill y Deyrnas Unedig. Er mai yn anaml iawn y gwnaeth ymatebwyr gynnwys manylion am bwrpas y cyllid ychwanegol, dywedodd llawer bod angen lleihau maint dosbarthiadau yn eu barn nhw.

Roedd cyfres bwysig arall o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â safon a datblygiad athrawon, gyda llawer (15.4% o ymatebwyr) yn hawlio bod angen gwelliannau sylweddol o ran dewis athrawon, eu hyfforddiant cychwynnol a'u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Yn gysylltiedig â hyn, oedd y farn (a fynegwyd gan 11.8% o ymatebwyr) bod angen i athrawon gael mwy o annibyniaeth wrth wneud penderfyniadau addysgol.

Cyfeiriodd 13.2% o ymatebwyr at fwy o ffocws ar sgiliau sylfaenol (er, dywedodd ambell un bod angen llai o ffocws ar sgiliau sylfaenol). Roedd meysydd eraill i'w newid a gafodd eu henwi'n fynych yn cynnwys: gostyngiad ym maint ac ehangder y cwricwlwm (10.7% o ymatebwyr), yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar ac, i'r gwrthwyneb efallai, mwy o ffocws ar ddibenion a nodau ehangach addysg (h.y. llai o ffocws ar gymwysterau), yn enwedig yng ngyfnodau diweddarach addysg; mwy o ffocws ar bynciau mwy creadigol (5.5%); llai o ffocws (6.3% o ymatebwyr) ac, i'r gwrthwyneb, mwy o ffocws (3.8%) ar ddatblygiad y Gymraeg; a mwy o ffocws ar bynciau STEM a/neu TGCh (5.2%).

O safbwynt sut y dylid cyflawni'r newidiadau hyn, nodwyd eisoes bod llawer o ymatebwyr o'r farn y dylai athrawon ac ysgolion gael mwy o annibyniaeth i wneud penderfyniadau o'r fath. Ond, roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys mwy o ddysgu wedi'i bersonoli (7.4%), mwy o gydweithredu o fewn y system (6.6%), a mwy o gymorth i ddisgyblion difreintiedig (yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn wybyddol) penodol (8.2%).

Cyfeiriodd cyfran gymharol fawr o ymatebwyr (9.1%) at faterion yn ymwneud â phwysigrwydd dulliau cymharu rhyngwladol a heriau byd-eang eraill. Roedd y rhain yn cynnwys neges gref am leihau neu hyd yn oed ddileu pwysigrwydd profion a chymariaethau PISA, ond pryder hefyd y dylai unrhyw newidiadau yng Nghymru ystyried yr hyn sy'n digwydd yn rhyngwladol, o safbwynt anghenion dysgwyr yn y dyfodol (gweler hefyd y ffocws ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang), ond hefyd i sicrhau bod addysg a chymwysterau yng Nghymru yn gymesur â'r hyn sy'n digwydd y tu allan i Gymru (gan gynnwys Lloegr).


Yn yr un modd â Chwestiwn 2a, mae'n amhosibl chwilio am arwyddocâd â'r draws ystod gyfan yr ymatebion oherwydd eu hamrywiaeth. Fodd bynnag, os byddwn eto'n dewis y 'chwech uchaf' o blith yr agweddau sydd angen eu newid, gallwn weld rhai amrywiadau diddorol yn ôl y math o ymatebwr (Ffigur 6).

Rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr sy'n pryderu fwyaf am faterion cymwysterau ac asesu. Nid yw'n syndod, efallai, mai athrawon yw'r grŵp sy'n pryderu fwyaf am gyllid a maint


dosbarthiadau. Eto, nid yw'n syndod mai athrawon sy'n lleiaf tebygol o ddadlau bod angen mynd i'r afael ag ansawdd a hyfforddiant athrawon – yn yr un modd, llywodraethwyr yw'r grŵp o ymatebwyr sy'n lleiaf tebygol o feddwl bod angen mynd i'r afael â materion llywodraethu a rheoli perfformiad. Rhieni/gofalwyr a sefydliadau sy'n fwyaf awyddus i weld mwy o ffocws ar sgiliau sylfaenol.

Os ydym yn canolbwyntio ar ymatebion y chwe undeb athrawon, amlygodd bedair ohonynt feysydd allweddol yr hoffent weld newidiadau ynddynt. Cyfeiriodd tair ohonynt at gyllid a chyfeiriodd dwy ohonynt ar ormodedd o arloesedd. Cyfeiriodd dwy ohonynt at faterion rheoli perfformiad (e.e. 'rhowch y gorau i roi'r bai ar ysgolion') hefyd. Roedd ymateb gan un undeb yn cwestiynu a oedd angen am Estyn.

Ffigur 5: Y pethau sydd angen eu newid i wella addysg yng Nghymru (% o'r holl ymatebwyr, n=949)




Ffigur 6: Y 'pethau sydd angen eu newid' y cyfeiriwyd atynt yn fwyaf aml, yn ôl y math o ymatebwr



C3a. Faint o ryddid ddylai ysgolion ei gael i benderfynu ar yr hyn y dylen nhw fod yn ei addysgu?

Roedd rhaniad amlwg rhwng y rhai a oedd o'r farn y dylai ysgolion gael mwy o ryddid neu lai o ryddid ynghylch cynnwys y cwricwlwm (Ffigur 7). Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth (63%) eisiau naill ai cwricwlwm cyffredin neu ryddid dim ond o fewn fframwaith cenedlaethol.

Ffigur 7: Faint o ryddid ddylai ysgolion ei gael (% yr ymatebwyr, n=321)



O fewn yr is-sampl hwn, mae'n ymddangos bod perthynas rhwng y math o ymatebwr a'r ymateb. Athrawon oedd yn fwyaf tebygol o fod eisiau rhyddid llwyr neu ryddid y tu hwnt i leiafswm gofynion (cafodd hyn ei fynegi yn nhermau llythrennedd a rhifedd yn aml). Roedd hyn i'w weld yn bennaf ymhlith y penaethiaid a ymatebodd, gyda dros hanner ohonynt

(51.6%) eisiau rhyddid llwyr neu ryddid y tu hwnt i leiafswm gofynion. Roedd rhieni/gofalwyr yn fwy tebygol o fod o blaid cwricwlwm cyffredin.

Fe wnaeth nifer o grwpiau ymgyrchu ddadlau o blaid cwricwlwm cyffredin ar sail bod hynny'n sicrhau bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar ysgolion i gynnwys pynciau/meysydd penodol a allai gael eu heithrio fel arall.

Rhoddodd lleiafrif o ymatebwyr atebion amodol, e.e. yn dadlau am fwy o ryddid yng Nghyfnod Allweddol 2 neu'n ddiweddarach. Awgrymodd dau ymatebwr y dylai graddfa'r rhyddid berthyn i allu'r ysgol i berfformio'n dda o safbwynt allbwn.

C3b. A yw hi'n bwysig bod holl blant Cymru'n dysgu'r un peth â'i gilydd hyd nes eu bod yn 16 oed?

O ystyried y gefnogaeth tuag at reolaeth lem gan y llywodraeth, mae'n bosibl bod yr ymatebion i'r cwestiwn a ofynnodd i ymatebwyr ystyried a ddylai pob plentyn ddysgu'r un peth â'i gilydd hyd nes eu bod yn 16 oed yn syndod. O'r ymatebwyr hynny a fynegodd farn ddiamwys, roedd lleiafrif sylweddol (46.3%) yn cytuno, ac roedd y mwyafrif (53.7%) yn anghytuno.

Roedd y rhai a oedd yn dadlau o blaid cwricwlwm cyffredin yn 16 oed yn pwysleisio materion cydraddoldeb, tegwch a rhinweddau cwricwlwm â sylfaen eang gyffredinol. Roedd y rhai a oedd yn dadlau yn erbyn cwricwlwm cyffredin yn pwysleisio gwahaniaethau rhwng dysgwyr a'r angen i gynnig dulliau mwy pwrpasol – yn enwedig o 14 oed ymlaen.


C4a. Yng Nghymru, mae plant 3 i 7 oed yn astudio Meysydd Dysgu eang yn y Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn hyn ceir ffocws ar bynciau unigol am weddill eu haddysg gynradd ac uwchradd. Ydych chi'n meddwl mai dyma'r ffordd iawn i drefnu ein cwricwlwm?

Roedd y farn wedi rhannu'n weddol gyfartal ar y mater hwn. O'r 261 ymateb diamwys gan oedolion, dywedodd 57.5% o ymatebwyr y byddent eisiau newid y ffordd o drefnu'r cwricwlwm ac roedd 42.5% o'r farn mai dyma oedd y ffordd iawn o drefnu'r cwricwlwm. Dylid nodi na chafodd y cwestiwn hwn ei ateb yn glir gan 26% o ymatebwyr a chafodd y ddau flwch eu ticio gan saith ymatebwr.


Llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr sy'n fwyaf tebygol o gytuno â'r trefniadau presennol (Ffigur 8). Roedd mwyafrif yr athrawon a'r staff cymorth wedi anghytuno â'r trefniadau presennol. O ddiddordeb ac ychydig yn groes i'r disgwyl, athrawon cynradd yn hytrach nag

athrawon uwchradd oedd yn fwy tebygol o anghytuno â'r trefniadau presennol (Ffigur 9). Fodd bynnag, yn fwy aml na heb, mae'n ymddangos mai'r rheswm dros hyn yw yr hoffent weld cwricwlwm sy'n canolbwyntio'n llai ar bynciau yn y blynyddoedd wedyn.

Ffigur 8: Ai'r ffordd bresennol yw'r ffordd iawn i drefnu ein cwricwlwm?



Ffigur 9: Ai'r ffordd bresennol yw'r ffordd iawn i drefnu ein cwricwlwm? (yn ôl athrawon cyfnod)




C4b. Os nad ydych, pa fodelau amgen fydddech chi'n eu cynnig?

O'r 150 o ymatebwyr a ddywedodd yn glir y byddent am newid y ffordd o gyflwyno'r cwricwlwm, rhoddodd 136 ohonynt awgrymiadau amgen. Yn gyfan gwbl, fe wnaethom godi o 186 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dywedodd ychydig o dan 30% o ymatebion y dylai'r dull Meysydd Dysgu (ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn fwy cyffredinol) gael ei ymestyn hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (Ffigur 10). Dywedodd cyfran gymharol lai (13%) o ymatebwyr

y dylai dull gwahanol o drefnu'r cwricwlwm hyd yn oed gael ei ymestyn hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Nid yw'n hollol glir i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn cyfeirio at newidiadau i gwricwlwm CA2 ac CA3 neu a oeddent eisiau i Feysydd Dysgu gael eu hymestyn i'r Cyfnodau Allweddol hyn. Ond yn sicr, roedd awydd clir ymhlith y 57.5% o ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn hoffi gweld newid oddi wrth gwricwlwm fesul pwnc yn y Cyfnodau Allweddol diweddarach, i gwricwlwm mwy seiliedig ar sgiliau a dysgu trwy brofiad. Ond, heblaw am yr egwyddor gyffredinol hon, nid oedd syniadau am strwythur arall i'r cwricwlwm yn arbennig o soffistigedig, gyda nifer cymharol fach o ymatebwyr yn cyfeirio at syniadau amwys am ddulliau dysgu cyfannol, rhyngddisgyblaethol, seiliedig ar nodau neu seiliedig ar themâu. Efallai hefyd ei bod hi'n werth nodi bod nifer bach o'r rhai a ddywedodd eu bod eisiau gweld newidiadau i'r cwricwlwm wedi datgan bod angen mwy o wybodaeth am bwnc. Ond, o ystyried ymatebion i gwestiynau blaenorol, mae'n debygol bod hyn yn cyfeirio at ostyngiad yn ehangder pynciau'r cwricwlwm i ganiatáu am ddealltwriaeth fanylach o lai o bynciau (gweler hyn eto yn yr adroddiad hwn).

Ffigur 10. Dosbarthiad yr awgrymiadau am ddulliau amgen o drefnu'r cwricwlwm (% yr ymatebion, n=186)



C5. A oes unrhyw bynciau y dylid eu hychwanegu at y cwricwlwm neu eu tynnu oddi arno?

O'r 272 o ymatebwyr a roddodd ateb pendant, dywedodd 30.9% o'r ymatebwyr na ddylid newid nifer y pynciau yn y cwricwlwm a dywedodd 69.1% bod angen rhywfaint o newid. Eto, dylid nodi bod 23% heb ateb y cwestiwn hwn.


O'r rhai a fynegodd eu bod eisiau gweld newidiadau i gynnwys y cwricwlwm, gall y newidiadau a awgrymwyd yn fwyaf aml (Ffigur 11) gael eu dosbarthu'n fras yn ôl themâu addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd (ABCh), fel dinasyddiaeth ac addysg am berthnasoedd. Mae'r ddau nesaf sy'n fwyaf poblogaidd yn ymwneud â mwy o ffocws ar llythrennedd a rhifedd a mwy o addysg alwedigaethol ac arweiniad gyrfaol.

O ran newidiadau i bynciau penodol, roedd y farn yn gwrthdaro yn aml. Er gwaethaf y farn amlwg ar draws llawer o'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad sef y dylid lleihau'r cwricwlwm, yn aml, roedd mwy o ymatebwyr a ddywedodd eu bod eisiau mwy o ffocws ar bynciau penodol, neu fod ychwanegu pynciau penodol, nag ymatebwyr a ddywedodd bod angen eu cyfyngu neu eu tynnu o'r cwricwlwm. Ymhlith pynciau penodol yr oedd angen mwy o ffocws arnynt yr oedd datblygiad personol, cymdeithasol a chorfforol, TGCh a chyfrifiadura, ieithoedd tramor modern, y celfyddydau a phynciau creadigol, llythrennedd a rhifedd, datblygiad gyrfaol a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mewn llawer o'r achosion hyn, roedd ymatebwyr eraill yn dweud y dylid rhoi llai o sylw i'r pynciau hyn neu eu tynnu o'r cwricwlwm (e.e. llythrennedd a rhifedd, datblygiad personol, cymdeithasol a chorfforol, gwyddoniaeth, TGCh ac ieithoedd tramor modern). Wrth reswm, roedd ymatebion sefydliadau â briffiau ymgyrchu penodol yn adlewyrchu eu hagenda penodol - a oedd yn amrywio o godi ymwybyddiaeth amgylcheddol i ostwng trais yn y cartref.

Mae'n werth nodi hefyd bod cyfran gymharol fawr o ymatebwyr wedi dweud y dylai presenoldeb y Gymraeg fod yn gyfyngedig, yn enwedig o ran dileu ei natur orfodol (yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4). Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn yng nghydestun ymatebion i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad lle y cafodd presenoldeb y Gymraeg yn y cwricwlwm ei ganmol neu lle y dywedwyd bod angen mwy o sylw iddi.

Mae'n ddiddorol nodi hefyd bod cyfran fach (4.6%) o ymatebwyr wedi awgrymu bod angen mwy o annibyniaeth ar ysgolion, athrawon a disgyblion wrth benderfynu pa bynciau y mae angen eu hychwanegu neu eu tynnu o'r cwricwlwm, gan adlewyrchu barn flaenorol am fwy o bersonoli a dull mwy plentyn ganolog o wneud penderfyniadau cwricwlaidd.

Ffigur 11: Pynciau y dylid eu hychwanegu at y cwricwlwm neu eu tynnu oddi arno (% yr ymatebwyr, n=360)



C6. Mae plant yn dod o gefndiroedd gwahanol ac mae ganddyn nhw dalentau a galluoedd gwahanol. Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod eu haddysg yn helpu pob un ohonyn nhw i gyflawni'r gorau y gallan nhw?

Mae amrywiaeth enfawr yn y farn yn y fan hon - a gellir ei rhannu'n fras yn ôl y rhai sydd o'r farn y dylai ysgolion weithio i *leihau'r* gwahaniaethau rhwng disgyblion (gan ganolbwyntio ar wahaniaethau yn ôl cefndir fel arfer) a'r rhai sydd o'r farn y dylai ysgolion *ddathlu'r* gwahaniaethau rhwng disgyblion (gan ganolbwyntio ar wahaniaethau mewn talentau a galluoedd fel arfer). Wrth reswm, mae rhinweddau i'r ddau amcan, ond mae ganddynt oblygiadau tra gwahanol o ran polisi.

Os edrychwn ar y gwahaniaeth barn, roedd lleihau gwahaniaeth i'r eithaf yn cael ei ffafrio'n gyffredinol (32.7% o'r ymatebwyr) yn hytrach na meithrin gwahanol dalentau a galluoedd (14.2%). Fodd bynnag, ymateb y mwyafrif (53.2%) oedd mynegi ansicrwydd ynghylch y ffordd orau ymlaen – mae'n siŵr bod hyn yn adlewyrchu'n rhannol yr amwysedd yn y cwestiwn.

Yn amlwg, mae'r strategaethau i hybu addysg i *bawb* yn amrywio yn ôl yr amcan, sef naill ai lleihau effeithiau cefndir neu feithrin talentau unigol. Fe wnaeth y rhai a oedd yn awyddus i *leihau* gwahaniaethau argymhell nifer o ddulliau:

Yn gyntaf, diddymu addysg breifat a pob dewis. Sicrhau bod plentyn y meddyg yn yr un dosbarth â phlentyn y glanhawr. Trwy ddulliau o'r fath, rydych chi'n sicrhau bod brwdfrydedd tuag at addysg a ddaw o'r dosbarth canol uchelgeisiol yn gyrru gwasanaeth addysg o safon sydd o fudd i bawb mewn cymdeithas. Rydych chi'n sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael yr un cyfle. Yn eironig, dyma a wnaeth ysgolion gramadeg. Ond ni allwn gael dewis oherwydd ei annhegwch llwyr. Yr hyn y gallwn ei gael yw ethos yr ysgol ramadeg mewn ysgolion: addysg o safon uchel, cariad tuag at ddysgu a safonau uchel. (Athro)

Nid yw'n syndod bod y rhai a oedd eisiau *dathlu* gwahaniaethau eisiau cael gwared ar fframweithiau cwricwlwm ac asesu safonedig:

Os ydych chi'n mabwysiadu dull cyfannol at addysg, yna bydd hyn yn digwydd yn naturiol. Ond, mae'r ffocws ar brofion a nodau'n golygu mai dim ond y rhai sy'n 'academaidd' fydd 'yn gwneud yn dda' yn yr ysgol. (Unigolyn)


Mae gan bawb dalent mewn rhyw faes, felly beth am hybu hunan-barch y plentyn yn y dosbarth trwy adael iddo rannu'r talentau hynny – e.e. rhywun sy'n dda am fathemateg yn helpu rhywun sy'n ei gael yn anodd, plentyn sy'n arlunydd gwych yn arwain prosiect i greu collage enfawr. (Rhiant/Gofalwr)

Cwricwlwm amrywiol sy'n gwerthfawrogi'r talentau gwahanol a bydd archwilio hyn yn helpu i blant gyflawni'r gorau y gallan nhw (Sefydliad)


C7. Pa wybodaeth sydd angen i chi ei gwybod am gyflawniad addysgol plant wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol?

Mae dosbarthiad ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cael ei ddangos yn Ffigur 12. Cafwyd rhai amrywiadau ar draws y mathau o ymatebwyr y gwnaethom eu holi (Ffigur 13), ond pwysleisiodd bob un o'r ymatebwyr mai gwybodaeth yn ymwneud â chyrhaeddiad academiaidd oedd bwysicaf.

Ffigur 12: Gwybodaeth sydd ei hangen am gyflawniad addysgol plant wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol (% yr ymatebwyr, n=364)



Ffigur 13: Gwybodaeth sydd ei hangen am gyflawniad addysgol plant wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol, yn ôl y math o ymatebwr



Roedd mwyafrif helaeth yr holl ymatebwyr (75.8%) eisiau gwybodaeth am gyflawniadau gwybyddol – a gwybodaeth gymharol fel arfer – naill ai o ran cyraeddiadau blaenorol neu o gymharu â grŵp oedran y disgyblion:

Mae angen meini prawf clir i olrhain cynnydd yn ôl y continwmm sgiliau. Mae continwmm sgiliau ac olrhain effeithiol yn sicrhau bod athrawon yn gallu pennu'r cam nesaf mewn dysgu a chynllunio yn unol â hynny. Gellir gosod targedau heriol i ddisgyblion ac athrawon. (Ymateb grŵp)

Mynegodd rhai ymatebwyr rwystredigaeth ynglŷn â'r ffordd o gyflwyno adroddiadau ar ddata cyrhaeddiad:

Adroddiad safonol nad yw ei fformat yn newid bob 5 munud, fel bod modd cymharu o dymor i dymor ac o flwyddyn i flwyddyn. (Rhiant/Gofalwr)

Adroddiadau bob tymor – hawdd eu deall gyda graddau ar gyfer cyflawniad ac ymdrech. Adroddiad diwedd blwyddyn yn cynnwys manylion cyflawniad mewn arholiadau. Dylai unrhyw ddiffygion mewn addysg disgybl gael eu hamlygu ar unwaith a dylid rhoi gwybod i'r rhieni am y rhain. (Rhiant/Gofalwr)

Rwy'n hoffi gallu cyfarfod a siarad ag athrawon yn rheolaidd. Mae'n well gen i sgwrsio ag athrawon fy mhlentyn nag adroddiadau. Rwy'n hapus i gael adroddiadau hefyd, ond rwy'n meddwl y dylen nhw fod yn eithaf syml a byr, a chynnwys sylwadau personol, yn hytrach na bod yn bethau enfawr yn llawn blychau ticio. (Rhiant/Gofalwr)

Bu rhywfaint o wahaniaeth barn am ddilysrwydd cymharol asesiadau athrawon neu asesiadau ar ffurf profion:

Mae angen i ni edrych ar gyflawniad trwy asesiadau athrawon. Mae angen i ni wybod am y llwyddiant gwerth ychwanegol y mae pob plentyn unigol yn ei gyflawni yn unigol. Nid oes angen i ni gadw cymharu a chanolbwyntio ar gyrhaeddiad ... (Ymateb grŵp)

Asesiadau o ansawdd uchel wedi'u gwirio yn allanol. Nid oes pwynt i asesu gan athrawon, mae'n cael ei ffidlo. Nid yw'r profion rhifedd yng Nghymru'n cyfrif fel asesiadau o ansawdd uchel, nid ydynt yn cael eu gwahaniaethu ac maen nhw'n torri calon 50% o'r disgyblion. (Athro)

Dilysrwydd asesiadau athrawon – mae data MOR bwysig i lwyddiant ysgol fel bod y data'n gallu cael ei ffugio. Hyd nes bod llwyddiant ysgol yn cael ei seilio ar fwy na data, ni fydd hyn yn newid. Er nad ydw i eisiau gweld profion tebyg i'r TASau, gyda disgyblion yn cael eu 'haddysgu' i basio'r rhain, nid yw'r system bresennol yn caniatáu i athrawon asesu a gwerthuso cyflawniadau disgyblion mewn ffordd go iawn yn fy marn i. A yw ciplun o un asesiad yn brawf o allu disgyblion i arddangos sgil benodol? A ddylai athrawon fod yn asesu cynnydd dros flwyddyn academaidd lawn yn hytrach? Byddai'n braf petai arfarniad athro, fel gweithiwr proffesiynol, o fyfyrwr yn cael ei dderbyn; fodd bynnag, a oes gan athrawon y parch proffesiynol i sicrhau trylwyrdd a thegwch? (Athro)

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn siarad am gyrhaeddiad yn gyffredinol, fe wnaeth rhai (12.4%) grybwyll y dylid cofnodi gwybodaeth am sgiliau penodol:

Gwybodaeth ffurfiannol am y sgiliau a sut i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau hynny. Helpu i nodi diddordebau a doniau. I ba raddau y gallant ddysgu'n annibynnol. Gwybodaeth am adegau pan ddangosont barch neu ddiffyg parch. (Athro)

Mae gennyf lawer mwy o ddiddordeb mewn cyflawniadau personol. Mae gormod o ffocws ar allu academaidd. Beth am y plentyn sy'n helpu plentyn arall ar y sbectrwm awtistig neu sy'n cynnig ei sedd i rywun arall. Pan fyddaf i'n cyflogi rhywun, mae rhagoriaeth academaidd yn bwysig ond mae personoliaeth, moesau a deallusrwydd emosïynol yn cael llawer mwy o ddylanwad ar y penderfyniad. (Rhiant/Gofalwr)

Yn ogystal, roedd un o bob wyth rhiant/gofalwr (13.3%) â diddordeb mewn cael gwybodaeth am les eu plentyn:


Yn yr ysgol gynradd, rwy'n credu bod eu lles emosiynol o'r pwys mwyaf, gan roi sylfaen iddynt ar gyfer sut i astudio'n effeithiol; felly'n gwybod eu gallu, heb straen profion (ac mae plant ysgol gynradd yn ymwybodol o hyn) – yn bersonol, rwy'n credu bod a wnelo canlyniadau mwy â sut mae'r ysgol yn perfformio na'r plentyn. (Rhiant/Gofalwr)

I raddau helaeth, athrawon oedd y rhai a oedd yn dweud bod arnynt angen gwybod am yr amgylchiadau gartref.

C8. Ydych chi'n teimlo bod y cydbwysedd rhwng asesu ac addysgu/dysgu yn iawn ar hyn o bryd mewn ysgolion?

Roedd mwyafrif (56%) y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn ac a fynegodd farn glir o'r farn *nad* oedd Llywodraeth Cymru wedi cael y cydbwysedd rhwng asesu ac addysgu a dysgu yn iawn (Ffigur 14). Dylid nodi, serch hynny, nad atebodd 30% o ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Ffigur 14: A yw'r cydbwysedd rhwng asesu ac addysgu/dysgu yn iawn ar hyn o bryd? (% yr ymatebwyr, n= 255)



Roedd pob un o'r rhai a ddywedodd 'na' o'r farn bod gormod o asesu yn gyffredinol, er enghraifft:

Na, mae gormod o asesu'n perthyn iddo ac nid ydym yn rhoi amser i blant wella a gwneud cynnydd. (Athro)

Na, mae gennym ormod o lawer o asesu yn ein hysgolion. Mae'r asesu hwn yn gyrru'r llywodraeth sydd yn ei thro'n gyrru'r wlad ac arweinwyr ysgol ac mae'r holl bwysau hyn yn disgyn ar yr athrawon. Mae cymaint o obsesiwn gan ysgolion â bod ar frig band neu dabl o ryw fath fel eu bod yn colli ffocws. (Athro)

Nid wyf o'r farn bod pwysau sefyll profion yng Nghyfnod Allweddol 1 neu 2 o fudd i blant unigol, nac i'r ysgolion sy'n gorfod gweinyddu'r profion. (Unigolyn)

Nid oedd gwahaniaethau mawr yn ôl y math o ymatebwr, ond datgelodd ymatebion gan rieni bryderon sylweddol:

Mae fy [mhlentyn] wedi cael ei dysgu sut i basio prawf eleni, ac mae holl bleser dysgu wedi'i gollu iddi nhw. Nid yw'r profion newydd yn cynnig unrhyw fudd i'm plentyn, yn fy marn i. Nid oes ots gen i a wnaeth plant saith oed rywle arall yng Nghymru gael sgôr uwch mewn prawf na'm plentyn i, nac ychwaith a gafodd yr ysgol i fyny'r ffordd ganlyniadau gwell na'i hysgol hi. (Rhiant/Gofalwr)

Nac yw. Pam oedd rhaid i'm [plentyn] saith oed i fynd drwy asesiadau ffurfiol a wnaeth achosi pryder iddo? Mae wedi treulio 4 blynedd yn dysgu trwy chwarae yna mae'n rhaid iddo sefyll arholiadau ffurfiol yn debyg i'r rhai sy'n cael eu sefyll gan bobl ifanc 16 oed. (Athro)

Hefyd, roedd pryderon bod yr asesiadau'n rhy gul ac yn canolbwyntio ar berfformiad y sefydliad ac nid ar ansawdd yr addysgu:

Mae'n ymddangos bod y sefyllfa bresennol yn canolbwyntio ar fesur perfformiad ysgolion trwy asesu plant yn ôl 'normau' sy'n perthyn i oedran yn hytrach nag yn ôl pa mor effeithiol yw'r addysgu/dysgu wrth gyflawni potensial unigolyn. Hwyrach bod cymharu cyflawniad addysgol plentyn unigol â chyfres o safonau rhyngwladol a grëwyd yn artiffisial yn rhoi arwydd o berfformiad un 'system' addysg genedlaethol o gymharu ag un arall, ond prin yw ei ddylanwad ar ddatblygu ymhellach a meithrin dyheadau'r unigolyn. (Athro)

Roedd sylwadau eraill yn ymwneud â tharo'r cydbwysedd iawn rhwng y gwahanol fathau o asesiadau:

Ar hyn o bryd, mae gormod o bwyslais ar 'asesu dysgu', a dim digon ar 'asesu ar gyfer dysgu'. Mae hyn yn cyfyngu ar allu athrawon gyflwyno profiadau dysgu mewn ffordd greadigol ac nid yw o reidrwydd yn gwella'r deilliannau i ddisgyblion. Mae ffocws ysgolion ar brofion cenedlaethol ac arolygu – llythrennedd a rhifedd. Mae gennym sawl enghraifft o ysgolion yn penderfynu peidio â chymryd rhan mewn prosiectau gan eu bod eisiau paratoi dysgwyr ar gyfer profion ac arolygu. (Sefydliad)

Credwn ei bod hi'n bwysig taro'r cydbwysedd iawn rhwng profion o dan amodau arholiad a gwaith cwrs. O safbwynt perfformiad yn ôl y math o asesiad, mae

gwahaniaeth clir rhwng y rhywiau, gyda bechgyn yn gwneud yn well o dan amodau arholiad a merched yn gwneud yn well mewn gwaith cwrs. Gallai gormod o ffocws ar y naill neu'r llall beri anfantais i hanner y disgyblion mewn ysgol. Wrth i Loegr symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio'n fwy ar asesu dan reolaeth, byddem yn galw am bwyll, a bod Llywodraeth Cymru yn ystyried effeithiau llawn dull o'r fath cyn gwneud unrhyw newidiadau i asesu yng Nghymru. Fel yr amlinellir uchod, mae'n bwysig bod addysg yn paratoi pobl ifanc â mwy na dim ond sgiliau academaidd yn ein barn ni. Mae taro'r cydbwysedd cywir rhwng asesu ac addysgu/dysgu yn bwysig er mwyn i ni alluogi addysgwyr i ddarparu'r dysgu ehangach hwn. (Athro)


Cwestiwn ychwanegol i rieni/gofalwyr

C9. I ba raddau mae'r dulliau adrodd presennol sydd gan ysgolion yn eich helpu chi i ddeall sut mae eich plentyn/plant yn ei wneud yn yr ysgol?

Nid oedd mwyafrif y rhai a ddywedodd eu bod yn rhieni/gofalwyr (gan gynnwys y rhai sydd hefyd yn athrawon ac yn llywodraethwyr) yn hapus â'r dulliau adrodd presennol (Ffigur 15):

Yn wael, at ei gilydd. Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb/adroddiadau ysgrifenedig yn rhy anfynych (dwywaith y flwyddyn) ac yn rhy fyr. (Rhiant/Gofalwr)

Ffigur 15: Digonoldeb yr adroddiadau presennol gan ysgolion am gynnydd plant (% y rhieni a ymatebodd, n=89)



Ystyriwyd bod nosweithiau rhieni yn arbennig o broblemus – naill ai gan nad oeddent yn cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol neu gan eu bod yn rhy anfynych:

Mae nosweithiau rhieni yn tueddu i fod fel marchnad anifeiliaid, gyda llawer o rieni'n ceisio gweld yr un athro a, phan fyddwch chi'n cyrraedd, mae terfyn ar yr amser a gewch. (Rhiant/Gofalwr)

Hefyd, ystyriwyd bod adroddiadau ysgrifenedig yn rhy anfynych (yn wir, nid oedd adroddiad o gwbl, mewn un achos). Gan amlaf, fodd bynnag, cynnwys yr adroddiadau ysgrifenedig yr oedd rhieni/gofalwyr yn anhapus yn ei gylch:

Nid yw'n werth darllen adroddiadau ysgrifenedig sy'n defnyddio cronfeydd datganiadau. Maen nhw'n hir, yn amhersonol ac nid ydynt yn rhoi unrhyw syniad i mi ble mae fy mhlant yn sefyll o ran gallu. Maen nhw'n dweud beth mae fy mhleintyn yn ei wneud ond dim beth ddylai fod yn ei wneud na sut mae'n cymharu â disgyblion eraill o'r un oedran. Rwy'n cael gwybod hyn ar lefel ysgol uwchradd – sy'n rhy hwyr, bron. (Rhiant/Gofalwr ac athro)

Mae'r adroddiadau ysgol hir wedi bod yn amhersonol ac yn golygu dim, yn mesur fy mhlant yn erbyn cyfres o nodau sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw. Rwy'n siŵr eu bod nhw'n ddiflas i'r athrawon eu llenwi hefyd. Mae'r nosweithiau i rieni yn well, ond dim ond oherwydd rwy wedi dysgu paratoi rhestr o gwestiynau rwy eisiau atebion iddynt a dod â honno gyda mi - beth maen nhw'n mwynhau ei wneud, ble maen nhw yng nghyd-destun y dosbarth cyfan, ydyn nhw'n dod ymlaen gyda phlant eraill ac ati. (Rhiant/Gofalwr)

Fel rhiant, ychydig iawn y mae adroddiadau fy mhlant yn ei ddweud wrthyf am gynnydd fy mhleintyn, yn fy marn i. Mae gormod o ddefnydd ar gronfeydd sylwadau felly mae'r holl adroddiadau'n dweud yr un peth. Y peth pennaf y byddaf i'n edrych arno yw'r radd ar gyfer ymdrech ac a yw fy mhleintyn yn cyrraedd ei darged ai peidio. (fel athro, mae'n rhaid i mi ysgrifennu adroddiadau arwynebol gan ddefnyddio cronfeydd sylwadau) (Rhiant/Gofalwr ac athro)

Roedd llai na thraean o'r rhieni a ymatebodd o'r farn bod y trefniadau adrodd yn dda:

Mae gennyf wybodaeth dda am gynnydd fy mhleintyn, gan fy mod yn cael adroddiad ysgrifenedig a dwy noswaith rieni'r flwyddyn. Hefyd, mae'r ysgol yn rhoi adroddiad y llywodraethwyr i ni, sy'n cynnwys data perfformiad yr ysgol, felly mae hyn yn gymhariaeth ddefnyddiol. (Rhiant/Gofalwr ac athro)

Dim ond un plentyn sydd gen i yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae'n ysgol fach, felly rwy'n gallu siarad â staff yn hawdd ac rydyn ni wedi cwrdd â'i athro. Rwy'n hoffi digon o gysylltiad uniongyrchol. Yn ddelfrydol i mi, byddwn yn hoffi cyfarfod uniongyrchol 3 gwaith y flwyddyn (un bob tymor) ac adroddiad personol ar ddiwedd y flwyddyn. Dim ond yn rhan-amser rwy'n gweithio, felly rwy'n gallu mynd i gyfarfodydd yn ystod y dydd, ond rwy'n credu y dylai fod digon o gyfle i rieni sy'n gweithio gyfarfod ag athrawon. Yn gyffredinol, rwy'n hoffi gallu cyfrannu at ysgol fy mhlant, felly dyma pam ddewison ni ysgol fach. (Rhiant/Gofalwr)

Beth, os rhywbeth, fyddai'n well gennych?


Fel arfer, roedd awgrymiadau rhieni/gofalwyr am sut i wella'r system yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y nosweithiau rhieni (dwywaith y flwyddyn neu bob tymor), cael adroddiadau ysgrifenedig yn fwy aml (bob tymor neu bob mis) a'u gwneud nhw'n fwy personol. Roedd un rhiant/gofalwr eisiau gallu monitro cynnydd ei blentyn ar-lein, roedd un arall eisiau llyfr cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol i ategu'r drafodaeth rhwng rhieni/gofalwyr ac athrawon.

ADRAN 3: Yr Holiadur i Blant a Phobl Ifanc

1a. Ar wahân i gymwysterau, beth yw'r tri pheth mwyaf pwysig y dylech chi eu cael o'ch amser yn yr ysgol?

Defnyddiom system ddsbarthu wahanol ar gyfer yr ymatebion hyn oherwydd bod cynnwys mwyafrif yr atebion mor wahanol i'r ymatebion a gafwyd i'r Holiadur i Oedolion. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr hyn yn pwysleisio *arwyddocâd cymdeithasol* mynd i'r ysgol. Amlygwyd wyth categori o ymatebion, ac mae eu dosbarthiad cymharol yn cael ei ddangos yn Ffigur 16.

Ffigur 16: Y pethau pwysicaf y dylai plant a phobl ifanc eu cael o'u hamser yn yr ysgol, yn eu barn nhw (% yr ymatebion, n=756)



Y geiriau unigol a gafodd eu crybwyll yn fwyaf aml oedd 'gwybodaeth' a 'chyfeillgarwch' ac mae'r geiriau hyn yn ymddangos yn aml tu hwnt. Cafodd amrywiol fathau o sgiliau cymdeithasol eu crybwyll yn aml hefyd.

O ran gwybodaeth, yn anaml iawn yr oedd disgyblion yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth benodol. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod 'gwybodaeth' yn hanfodol ar gyfer gwneud yn dda mewn bywyd neu ei gwneud hi'n haws i gael cymwysterau. Roedd y Gymraeg, TG, mathemateg ac addysg gorfforol yn eithriadau penodol.

Yn aml, fe wnaeth disgyblion amlygu pa mor bwysig oedd ysgolion wrth eu helpu i ennill sgiliau cymdeithasol amrywiol, fel gweithio gydag eraill, cyfathrebu a dod yn annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith tîm a sgiliau cymdeithasol.

I blant a phobl ifanc, un o'r pethau pwysicaf am yr ysgol yw eu perthynas â'u cyd-ddisgyblion. Roedd y rhesymau a roddwyd dros hyn yn cynnwys yr angen i osgoi bod yn unig, ond fe wnaeth hefyd adlewyrchu'r ffaith mai dyma oedd un o brif ddibenion addysg.


1b. Sut ydych chi'n meddwl y bydd y pethau hyn yn eich helpu chi yn y dyfodol?

Esboniodd mwyafrif yr ymatebwyr y bydd yr agweddau hyn yn helpu i sicrhau swyddi a chyfleoedd yn y dyfodol.

2. Beth yw'r tri pheth gorau am eich addysg chi?

Yn ôl plant a phobl ifanc, roedd y pethau gorau am addysg yn perthyn i naw prif faes (Ffigur 17). Mae bron hanner yr ymatebion yn ymwneud ag agweddau ar waith ysgol. Weithiau, mae'r rhain yn cyfeirio at ddysgu yn gyffredinol, at arddulliau dysgu penodol (e.e. gwaith grŵp) ac weithiau at bynciau penodol. Mae rhai pynciau'n ymddangos yn aml – Mathemateg, Hanes, Darllen ac yn enwedig addysg gorfforol. Cafodd y cyfle i ddysgu Cymraeg ei amlygu hefyd – yn enwedig i'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ffigur 17: Y pethau gorau am addysg yng Nghymru yn ôl plant a phobl ifanc? (% yr ymatebion, n= 563)



Eto, ac mewn cyferbyniad â'r ymatebion i'r Holiadur i Oedolion, gwelwn bwysigrwydd cyfeillgarwch a pherthnasoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc.

Hefyd, gwnaeth disgyblion sylwadau cadarnhaol am ansawdd y staff (athrawon *ac* athrawon cyflenwi) yn ogystal ag am agwedd gefnogol ac anogol gyffredinol eu hysgol. Cafodd gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth (amser egwyl a theithiau ysgol) eu crybwyll hefyd.

Soniodd lleiafrif bach o ymatebwyr eu bod yn gwerthfawrogi bod yr ysgol am ddim. Fodd bynnag, roedd yr atebion hyn mewn clwstwr yn yr holiaduron a ddychwelyd felly rydym yn amau eu bod yn adlewyrchu trafodaeth un dosbarth ar hyn.

3. Beth yw'r tri phrif beth sydd angen eu newid i wella eich addysg?

O safbwynt beth allai gael ei wella, roedd bron un o bob pump o'r holl awgrymiadau gan blant a phobl ifanc yn ymwneud i raddau helaeth â newid cydbwysedd y pynciau (Ffigur 18). Fodd bynnag, nid oedd cyfeiriad clir ynghylch sut roeddent eisiau ail-gydbwysu'r pynciau. Roedd rhai eisiau mwy o bwnc penodol, rhai eisiau llai. Roedd Cymraeg yn arbennig yn rhannu ein hymatebwyr - gyda lleiafrif bach eisiau iddi beidio â bod yn orfodol ac eraill eisiau mwy o Gymraeg. Roedd oedran yn berthnasol fan hyn, gyda'r ymatebwyr iau yn fwy brwdfrydig ynghylch Cymraeg.


Nid oedd hi'n annisgwyl gweld gwahaniaethau eraill ar sail oedran. Er enghraifft, roedd disgyblion hyn yn fwy tebygol o bryderu am newid arholiadau. Ymatebwyr o CA3 ac CA4 oedd yn fwyaf tebygol hefyd o eisiau fwy o sylw yn y cwricwlwm i faterion sy'n berthnasol i fywyd a dosbarthiadau llai. Fodd bynnag, oherwydd bod nifer yr ymatebwyr ym mhob categori oedran yn fach iawn, mae angen cymryd peth gofal wrth ddehongli'r gwahaniaethau hyn.

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr ym mhob Cyfnod Allweddol eisiau gweld newidiadau i'r ffordd o'u haddysgu. Roedd sylwadau ar addysgeg yn ymwneud â gwneud gwersi'n fwy ymarferol (fel arbrofion gwyddoniaeth), yn fwy o hwyl ac yn rhyngweithiol.

Yr awgrym mwyaf poblogaidd nesaf am welliant – a fynegwyd eto gan ymatebwyr o CA2, CAS3 ac CA4 – oedd am fwy o weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Cyfeiriodd deugain o ymatebwyr at drefn y diwrnod ysgol – ond roedd natur y newid a ddymunwyd yn amrywio. Roedd rhai eisiau i'r diwrnod ysgol ddechrau'n hwyrach, eraill eisiau iddo dechrau'n gynt.

Ffigur 18: Beth sydd angen newid, ym marn plant a phobl ifanc, i wella’u haddysg (% yr ymatebion, n=574)




4. Oes gwahaniaeth os ydych chi a'ch ffrindiau'n astudio pethau gwahanol i'ch gilydd yn yr ysgol?

O'r 338 ateb yr oedd hi'n bosibl eu codio, mae'r mwyafrif helaeth o'r farn nad oes gwahaniaeth os ydych chi'n astudio pethau gwahanol i'ch ffrindiau yn yr ysgol (Ffigur 19).

Roedd mwyafrif helaeth y disgyblion o'r farn nad oedd hyn yn bwysig. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys y posibilrwydd nad yw rhai plant yn mwynhau beth mae eu ffrindiau yn ei wneud a dylent allu gwneud beth maen nhw eisiau ei wneud, neu gallai rhai plant fod yn cael trafferth gyda'r un cynnwys. Roedd hyn yn adlewyrchu'r farn ymhlith rhai plant eu bod oll yn wahanol i'w gilydd.

Ffigur 19: A yw plant a phobl ifanc o'r farn bod gwahaniaeth os ydynt yn astudio pethau gwahanol i'w ffrindiau (% yr ymatebwyr, n=338)



5. Yng Nghymru, rhwng 3 a 7 oed mae plant yn astudio Meysydd Dysgu fel 'Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd'. Wrth i chi fynd yn hŷn rydych chi'n astudio pynciau unigol, fel gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth. Sut ydych chi'n meddwl ddylai'r pethau rydych chi'n eu dysgu gael eu trefnu i'ch helpu chi i gael y gorau o'ch amser yn yr ysgol?

Mae'n anodd dadansoddi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn systematig gan eu bod yn amrywiol iawn ac nid ydynt yn gwneud llawer o synnwyr. Rydym yn amau nad oedd y plant wedi deall y cwestiwn. Roedd yr ymatebion yn amrywio o drefnu pethau yn nhrefn yr wyddor, yn ôl grwpiau oedran neu yn ôl anhawster, i gael mwy o amser i ffwrdd i adolygu.

6. Mae disgyblion eich ysgol chi'n dod o bob math o deuluoedd a chefnidiroedd gwahanol ac mae ganddyn nhw dalentau a galluoedd gwahanol. Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod addysg yn helpu pob disgybl i gyflawni'r gorau y gall wneud?


Mae gennym bryderon tebyg am eu dealltwriaeth o'r cwestiwn hwn. Roedd lleiafrif wedi awgrymu strategaethau penodol, gan gynnwys: gwersi sy'n cefnogi pawb o bob gallu neu roi tiwtora ychwanegol i'r rhai ag anghenion addysgol penodol.

Ond yn amlach, naill ai ni roddwyd ateb neu roedd yr atebion yn crwydro braidd, er enghraifft, mae'n dibynnu o ble maen nhw'n dod, neu y dylai plant aildarllen cwestiynau, neu ganiatáu i blant benderfynu pa glybiau sy'n cael eu trefnu ar ôl ysgol.

7. Beth sydd angen i chi ei wybod am eich llwyddiannau wrth i chi symud drwy'r ysgol?

Fe wnaethom ddsbarthu ymatebion plant a phobl ifanc i'r cwestiwn hwn yn ddau brif gategori cyffredinol – pa mor dda y maent yn ei wneud a sut mae eu cyflawniad yn gysylltiedig â nodau yn y dyfodol (Ffigur 20). Yn y ddau gategori hyn, mae ffocws ar eu talentau a pha feysydd y mae angen iddynt eu gwella. Yn ogystal, roedd 'canlyniadau arholiadau' yn gategori diddorol – roedd llawer yn cyfeirio at pryd y byddent yn cael y canlyniadau, a phryd mae'r arholiadau (felly efallai bod logisteg a rhoi gwybodaeth am arholiadau yn ddisgrifiad gwell).

Ffigur 20: Beth sydd angen i blant a phobl ifanc ei wybod am eu llwyddiannau yn eu barn nhw (% yr ymatebwyr, n=244)



Roedd diddordeb y mwyafrif mewn pa mor dda roeddent yn ei wneud a beth oedd eu cryfderau a'u gwendidau.

Fodd bynnag, roedd dros un o bob pump wedi cyfeirio'n benodol at yr angen am wybodaeth ynghylch sut roedd y pethau roeddent yn ei wneud yn berthnasol i'w dyfodol a sut roedd eu cynnydd yn cyfateb i'w huchelgeisiau.

Nid yw'n annisgwyl bod yr ymatebwyr â diddordeb arbennig mewn gwybod am arwyddocâd eu cynnydd i'w nodau yn y dyfodol yn perthyn i gategoriâu CA4 ac 16+.

ADRAN 4: Casgliad

Roedd y gwahoddiad i gymryd rhan yn yr Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac Asesu wedi denu ymateb helaeth ac amrywiol. Cafwyd 364 o ymatebion i'r Holiadur i Oedolion – gan gynnwys llawer gan unigolion, grwpiau a sefydliadau ar draws Cymru. Cafwyd 349 o ymatebion gan blant a phobl ifanc – yn cynrychioli dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, o'r Cyfnod Sylfaen i addysg ôl-16.

Yn yr adroddiad hwn ar eu hymatebion, rydym wedi tynnu sylw at y themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg ac wedi ceisio sicrhau bod amrywiaeth yr ymatebion yn cael ei gynrychioli. Oherwydd bod yr holiaduron yn ddienw, ni wyddom ryw lawer am gefndir ein hymatebwyr ac, fel ym mhob arolwg o'r math hwn, gwyddom na fydd rhai lleisiau'n cael eu cynrychioli'n deg. Fodd bynnag, gwyddom fod pob sector, rhanbarth a rhan-ddeiliad allweddol yng Nghymru wedi'u cynnwys. Ac mae ehangder y safbwyntiau cyferbyniol a welir yn yr ymatebion yn awgrymu bod Cais am Dystiolaeth wedi sicrhau safbwyntiau amrywiaeth o bobl. Yn yr adran ganlynol, rhown drosolwg o'r prif ganfyddiadau a ddaeth i'r amlwg:

O ran y blaenoriaethau ar gyfer addysg, roedd hi'n glir o'r ymatebion niferus y dylai ysgolion fod yn gwneud mwy na dim ond trosglwyddo gwybodaeth. Er bod dysgu llwyddiannus fel un o ddeilliannau addysg o werth mawr i bob rhan-ddeiliad (gan gynnwys plant a phobl ifanc), roedd amrywiaeth o ddeilliannau eraill o werth mawr hefyd. Roedd cymwyseddau cymdeithasol cyffredinol, sgiliau bywyd a hyder personol oll yn cael eu hystyried yn bethau pwysig i'w cael o'r ysgol. Gwahaniaeth allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r Holiadur i Blant a Phobl Ifanc oedd pa mor bwysig oedd ysgolion o safbwynt datblygu cyfeillgarwch – rhywbeth na gafodd lawer o sylw yn yr ymatebion i'r Holiadur i Oedolion.

Roedd yr holl ymatebwyr yn gwerthfawrogi sawl agwedd ar addysg yng Nghymru. Nid yw'n syndod bod yr Holiadur i Oedolion wedi ennyn ymatebion ynghylch polisiau a nodweddion systemau a bod yr Holiadur i Blant a Phobl Ifanc wedi ennyn ymatebion ynghylch yr ysgol yn fwy uniongyrchol.

O ran y 'pethau gorau' am addysg yng Nghymru, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i gyfeiriad cyffredinol Llywodraeth Cymru. Y 'pethau gorau' y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd y Cyfnod Sylfaen, y Gymraeg a dwyieithrwydd, a'r ffocws ar hunaniaeth Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig. Cafodd annibyniaeth ar Loegr ei grybwyll yn aml hefyd. Yn achos Plant a Phobl Ifanc, roedd gwaith ysgol, ffrindiau ysgol a staff ysgol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Er bod cefnogaeth gyffredinol i bob golwg i lawer o'r mentrau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, amlygodd ymatebwyr nifer o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau. Awgrymodd ymatebion i'r ddau holiadur bod angen newid y cwricwlwm ac asesu er mwyn i addysg yng Nghymru wella. Yn gyffredinol, serch hynny, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gonsensws o

ran sut yn union y dylent gael eu newid. Roedd ymatebwyr yr Holiadur i Oedolion yn poeni am nifer cynyddol yr asesiadau. Un o brif ganfyddiadau'r Arolwg yn gyffredinol oedd nad yw'r cydbwysedd presennol rhwng asesu a dysgu yn gywir – gyda gormod o bwyslais yn cael ei roi ar y cyntaf ar draul yr ail.

Er bod plant a phobl ifanc yn llawer llai tebygol o ddweud bod asesu yn faes yr oedd angen ei newid, roeddent o'r farn y gallai'r cydbwysedd rhwng pynciau gael ei wella. Hefyd, fe wnaethant sôn am faterion yn ymwneud ag addysgeg ac awgrymu amryw ffordd y gallai eu gwersi fod yn fwy perthnasol a diddorol yn eu barn nhw.

Cafodd materion yn ymwneud â'r cwricwlwm a'i berthnasedd i oedolaeth eu codi hefyd yn yr Holiadur i Oedolion. Y tri maes pwnc a ddyfynnwyd amlaf gan yr ymatebwyr o safbwynt eu hymestyn a/neu eu gwella oedd ABCh, sgiliau sylfaenol (e.e. llythrennedd a rhifedd) a mwy o addysg alwedigaethol ac arweiniad gyrfaol.

O safbwynt trefnu'r cwricwlwm, nid oedd cytundeb ymhlith yr ymatebwyr mai'r trefniadau presennol (Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yna pynciau unigol) oedd y ffordd gywir i symud ymlaen. Roedd y rhai a ddymunai gweld newidiadau yn fwy tebygol o fod eisiau symud rhag dull traddodiadol fesul pwnc. Roedd yr ymatebion mwyaf mynych yn awgrymu ymestyn dull y Meysydd Dysgu tan ddiwedd CA2 a hyd yn oed CA3 neu drefnu dysgu ar sail sgiliau a/neu themâu.

O ran newid y cwricwlwm, mae'n eglur bod mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylai hyn fod yn faes polisi'r Llywodraeth yn hytrach nag yn cael ei benderfynu ar lefel ysgol. Dim ond lleiafrif bach oedd o'r farn y dylai ysgolion gael rhyddid o safbwynt cynnwys yr addysgu. Cafodd cwricwlwm cyffredin neu ryddid dim ond o fewn y paramedrau a sefydlir gan Gwricwlwm Cenedlaethol gefnogaeth gyffredinol.

Efallai mai un rheswm dros gefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol yw'r angen i ysgolion ddarparu data rheolaidd a chymharol ynghylch cynnydd disgyblion. Er y gellid ystyried bod hyn i raddau'n mynd yn groes i bryderon am or-asesu, ystyriwyd mai gwybodaeth am gyrhaeddiad oedd y ffordd bwysicaf o asesu cynnydd yn yr ysgol. Yn wir, pan ofynnwyd i rieni/gofalwyr roi sylwadau ar ddigonoldeb y mathau presennol o gyflwyno adroddiadau, dyma oedd un o'r prif feysydd pryder a fynegwyd ganddynt. Hefyd, ym marn plant a phobl ifanc eu hunain, gwybodaeth am gryfderau a gwendidau personol oedd y prif fath o wybodaeth yr oedd arnynt angen ei gwybod er mwyn eu helpu i wneud cynnydd.

At ei gilydd, mae'r Cais hwn am Dystiolaeth wedi ennyn amrywiaeth fawr o safbwyntiau gan amrywiaeth eang o ymatebwyr. Mae wedi datgelu cefnogaeth gyffredinol i rai o bolisiau blaenllaw Llywodraeth Cymru a gwerthfawrogiad tuag at sawl agwedd ar addysg. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai un maes sydd angen sylw yw'r berthynas rhwng y cwricwlwm ac

asesu. Mae hyn yn awgrymu bod yr Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac Aseu yn amserol ac yn bwysig.

ATODIAD

Data perthnasol o Raglen Ymchwil WISERDEducation

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnwys data a gasglom yn ystod dau gyrch cyntaf rhaglen ymchwil WISERDEducation sy'n arbennig o berthnasol i'r Cais am Dystiolaeth, yn ein barn ni. Trefnir y wybodaeth gan gyfeirio at y cwestiynau gwreiddiol yn yr adolygiad a'r canfyddiadau perthnasol.

Mae WISERDEducation yn astudiaeth hydredol, aml-garfan, dair blynedd sy'n cynnwys dros 1,500 o ddisgyblion mewn 29 ysgol gynradd ac uwchradd ar hyd a lled Cymru. Dewiswyd yr ysgolion a'r disgyblion sy'n cymryd rhan yn ein hastudiaeth i adlewyrchu amrywiaeth ddaearyddol, ethnig, economaidd ac ieithyddol Cymru. Ar ddechrau'r astudiaeth, trefnwyd y disgyblion yn bedwar carfan fel a ganlyn: Carfan A (Blwyddyn 2), Carfan B (Blwyddyn 6), Carfan C (Blwyddyn 8) a Charfan D (Blwyddyn 10). Yn ogystal â'n gwaith gyda disgyblion, rydym wedi bod yn casglu data gan benaethiaid a'u staff trwy gyfweiliadau ansoddol ac arolygon ynghylch eu proffil proffesiynol ac ynghylch materion addysgol, yn eu hysgol ac yng Nghymru yn gyffredinol.


Beth yw'r tri pheth mwyaf pwysig y dylai pobl ifanc eu cael o ganlyniad i'w hamser yn yr ysgol? (C1aO)

Yn ein hastudiaeth, rhoddwyd rhestr o bum amcan addysgu i athrawon a gofynnwyd iddynt osod y rhain yn nhrefn pwysigrwydd o un i chwech – un oedd y mwyaf pwysig a chwech oedd y lleiaf pwysig. Darperir yr ymatebion a oedd yn fwyaf pwysig yn y tabl canlynol:

%	Ymateb
46.8	Sgiliau sylfaenol a chronni gwybodaeth
17.5	Datblygu gallu disgyblion i feddwl
27.2	Meithrin datblygiad moesegol a chymdeithasol disgyblion
3.6	Meithrin parch tuag at eiddo'r disgyblion ac eiddo pobl eraill
2.0	Addysgu disgyblion i gydweithio

Hefyd, gofynnwyd i athrawon ddisgrifio beth oedd eu prif flaenoriaeth yn yr ystafell ddosbarth yn eu barn nhw. Cafodd yr ymatebion eu codio gan ddefnyddio dadansoddiad thematig a darperir y canlyniadau yn y siart canlynol.


% yr ymatebwyr (n=150). Beth yw eich prif flaenoriaeth yn yr ystafell ddosbarth?




Beth yw'r tri phrif beth sydd angen eu newid i wella addysg yng Nghymru? Sut fydddech chi'n mynd ati i'w newid? (C2bO)

Gofynnodd Arolwg Athrawon WISERDEducation i athrawon roi sgôr i nifer o bolisiâu allweddol Llywodraeth Cymru. Mae llawer o'u hatebion yn adlewyrchu'r atebion a roddwyd gan athrawon yn y Cais am Dystiolaeth.


Cyfnod Sylfaen (n=170)




Fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol (n=216)




Llwybrau Dysgu 14-19 (n=167)



Bagloriaeth Cymru (n=186)



Strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg (n=172)




Yn ogystal, gofynnwyd i athrawon yn arolwg WISERDEducation amlygu'r tri mater mwyaf tyngedfennol mewn addysg yng Nghymru yn eu barn nhw. Denodd y cwestiwn penagored hwn amrywiaeth o ymatebion a oedd yn adlewyrchu llawer o'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr yn y Cais am Dystiolaeth. Roedd mwyafrif yr ymatebion a ddaeth i law yn ymwneud â diffyg cyllid digonol a materion cyllidebol. Hefyd, cyfeiriodd yr athrawon at faterion cwricwlaidd, fel yr angen am adolygiad cynhwysfawr o'r cwricwlwm a diwygiadau a oedd yn symleiddio'r cwricwlwm cenedlaethol ac yn rhoi mwy o ryddid unigol i'r ysgol o fewn y cwricwlwm. Hefyd, cafodd yr athrawon eu holi pa bolisi addysg yng Nghymru oedd angen ei ddiwygio fwyaf. Eto, cyllid addysg a gafodd ei grybwyll amlaf. Yn olaf, gofynnwyd i athrawon beth oedd eu prif rwystrau fel athrawon, yn eu barn nhw. Ran amlaf o lawer, atebodd athrawon fod 'gormod o newid' a'u bod yn ceisio 'dal i fyny' yn gyson â newidiadau ym mholisi addysg. Hefyd, dywedodd llawer o athrawon bod materion cyllid yn tansilio'u gallu i addysgu eu disgyblion yn effeithiol. Yn olaf, roedd athrawon o'r farn bod gormod o fiwrocratiaeth mewn addysg yng Nghymru a oedd, yn ei dro, yn cael effaith negyddol ar eu gallu i greu'r amgylchiadau dysgu gorau i'w disgyblion.

Beth yw'r tri pheth mwyaf pwysig y dylech chi eu cael o'ch amser yn yr ysgol? (C1aPPhi)


Er na ofynnwyd cwestiynau penodol i'r disgyblion yn ein hastudiaeth ynghylch beth y dylent eu dysgu yn yr ysgol, gofynnwyd iddynt am y budd posibl y gall yr ysgol ei gael i'w hamgylchiadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Er enghraifft, gofynnwyd i ddisgyblion Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10 faint oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- (a) Mae'r pethau rwy'n eu dysgu yn yr ysgol nawr yn fy helpu yn fy mywyd bob dydd
- (b) Bydd y gwaith rwy'n ei wneud yn yr ysgol nawr yn fy helpu i gyflawni fy nodau yn y dyfodol

% yr ymateb. Bydd y gwaith rwy'n ei wneud yn yr ysgol nawr yn fy helpu i gyflawni fy nodau yn y dyfodol.



% yr ymateb. Mae'r pethau rwy'n eu dysgu yn yr ysgol nawr yn fy helpu yn fy mywyd bob dydd.



Beth yw'r tri pheth gorau am eich addysg? (C2PPhI)

Yn WISERDEducation, gofynnem i ddisgyblion Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10 restru hyd at dri pheth yr oeddent yn eu hoffi fwyaf am eu hysgol. Mae eu hatebion yn ategu canfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth ynghylch pwysigrwydd perthnasoedd cymdeithasol yn yr ysgol. Dywedodd disgyblion WISERDEducation mai'r pethau yr oeddent yn eu hoffi fwyaf am eu hysgol oedd y gallu i gwrdd â phobl a datblygu cyfeillgarwch. Hefyd, cyfeiriont at athrawon a oedd yn athrawon da yn eu barn nhw, oherwydd eu hymrwymiad i addysgu, eu gallu i addysgu'r pwnc a/neu lefel eu gofal bugeiliol i'r disgyblion.

O ran pynciau penodol a'r Gymraeg yn benodol, gofynnwyd i ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 6, 8 a 10 faint yr oeddent yn hoffi'r Gymraeg fel pwnc ysgol.

Faint ydych chi'n hoffi'r Gymraeg fel pwnc ysgol?

